

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyfrol 20: 10857 (Rhan 1)

[REDACTED]
[REDACTED]

Annwyl Mrs Ustus y Fonesig Nerys Jefford,

Gobeithio eich bod chi, eich teulu a'r holl dîm yn cadw'n iach. Cadwch fy holl fanylion, enw, cyfeiriad, ac ati yn breifat a chyfrinachol os gwelwch yn dda. Mae'r cyflwyniad hwn ar gyfer Cymru gyfan. Mae'n edrych ar rai posibilïadau a gweld sut fyddant yn gwasanaethu'r bobl ac yn cynrychioli Cymru. Cael set o 32 o etholaethau. Mae hyn yn ostyngiad o 1/5^{ed} 20% o'r 40 o etholaethau presennol. Mae'r gostyngiad hwn yn golygu newid. Yn flaenorol, roedd amrediad etholiadol eithaf eang. Mae ystod etholwyr culach yn yr arolwg hwn. Mae hyn yn +/-5% o gwota'r DU. Mae'r amrywiad o 10% o etholaeth yn y terfyn uchaf (77062) i'r terfyn isaf (69724) yn wahanïaeth o 7338. Mae hyn i weld yn dipyn o wahanïaeth y gallai un etholaeth fod â 7338 o etholwyr yn llai nag un arall - yn enwedig os oes gan eich etholaeth 7338 yn fwy na rhai eraill (rhai) - pe baech yn etholwr o'i chynrychiolydd. Ond mae'r ddau ffactor hyn - nifer etholwyr ac amrediad etholiadol - yn golygu newid ac ystyriaeth i rai eraill. Felly mae'n fwyaf tebygol y byddai pob etholaeth yn wahanol ac eithrio'r etholaeth warchoddedig - Ynys Môn. Mae hynny'n rhoi mwy o gyfyngiadau pwysau ar y gweddill - 31 o etholaethau. Felly, gorchwyl yr arolwg yw ffurfio'r 31 o etholaethau gorau ar gyfer dyfodol Cymru. Mae yna ddau beth na fyddant yn newid - cysylltiadau lleol a chymunedau ac awdurdodau lleol. Bydd yr etholaethau yn newid. Felly, byddai blaenoriaeth cysylltiadau lleol a chymunedau, awdurdodau lleol ac etholaethau yn y drefn honno - 1) Cysylltiadau lleol/cymunedau 2) Awdurdodau Lleol 3) etholaethau presennol.

Mae yna lawer o bosibiliadau i ffurfio 32 o etholaethau o 40 o etholaethau. Dim ond ar ddau y byddwn yn edrych yma. Mae'r rhain yn y Cynigion Diwygiedig ac awgrym BCW-10513. Gellir gweld manylion y rhain yn y llyfr/adroddiad Cynigion Diwygiedig a chyflwyniad BCW-10513. Mae tri map wedi'u cynnwys gyda'r cyflwyniad hwn.

Map A – etholaethau presennol (cyn arolwg 2023) ar gyfer Cymru

Map B – Cynigion Diwygiedig arolwg 2023 ar gyfer Cymru

Map C – Cynigion awgrymedig ar gyfer arolwg 2023 ar gyfer Cymru

Nid yw'r mapiau i raddfa ac mae'r ffiniau yn frasgywir.

Edrychir ar Gymru gyda'r pedwar rhanbarth hyn. Y pedwar rhanbarth yw:

North Wales – Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, County Ddinbych,
County Flint, Wrexham Local Authorities.

Mid and South-West Wales – Ceredigion, Powys, County Penfro,
County Caerfyrddin Local Authorities.

South-Central Wales – Abertawe, Castell Nedd Port Talbot, Pont-y-bont,
Bro Morgannwg Local Authorities.

South-East Wales – Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Blaenau Gwent,
Tor-faen, Casnewydd, Mynwy Local Authorities.


Mae Gwynedd yn cynnwys dwy sir flaenorol – sir Gaernarfon a Meirionnydd. Roedd Meirionnydd gyda Chanolbarth Cymru yn aml. Hyd yn oed yn eithaf diweddar gyda rhanbarthau'r Senedd. Pan ffurfiwyd Gwynedd daeth sir Gaernarfon yn dri dosbarth – dosbarthau Arfon, Dwyfor ac Aberconwy. Hefyd, daeth Meirionnydd yn bedwerydd dosbarth. Yna gydag awdurdodau unedol daeth Arfon, Dwyfor a Meirionnydd yn Gwynedd (heb unrhyw ddosbarthau). Gydag Aberconwy yn ymuno â dosbarth Bae Colwyn, rhan o Glwyd a Sir Ddinbych yn flaenorol, i ffurfio Conwy. Yn sicr roedd Sir Gaernarfon gyda Gogledd Cymru ond nid oedd Meirionnydd. Gyda Meirionnydd nawr, mae gogledd Meirionnydd yn tueddu tuag at Ogledd Cymru, a de Meirionnydd tuag at Ganolbarth Cymru. Mae Dyffryn Dyfi yn sicr yn ffurfio un, gan ddod â Gwynedd (Meirionnydd) Powys a Cheredigion ynghyd. Mae dwy o'r tair sir hyn yng Nghanolbarth Cymru yn bendant. Felly mewn rhyw ystyr, gellid rhoi Meirionnydd yn y naill ranbarth neu'r llall – Gogledd Cymru neu Ganolbarth a De Orllewin Cymru. Gyda Map A a Map B, mae Meirionnydd gyda Gogledd Cymru, Map C gyda Chanolbarth a De Orllewin Cymru.

Mae gan Ogledd Cymru 10 o etholaethau, y mae angen iddynt ostwng i 7 neu 7 ½ o etholaethau. Canolbarth a De Orllewin Cymru 7 o etholaethau i 5 ½ neu 6 o etholaethau. Canol De Cymru 8 o etholaethau i 7 o etholaethau (rhan gyda De Ddwyrain Cymru), De Ddwyrain Cymru 14 o etholaethau i ostwng i 12 o etholaethau. Dyma'r math o drawsnewid y mae angen i'r arolwg hwn ei sicrhau. Canfod y ffordd orau un o wneud hyn. Felly, beth yw'r ffordd orau o fynd o'r 40 o etholaethau sydd gennym nawr i'r 32 o etholaethau fydd gan Gymru ar gyfer etholiadau seneddol y DU yn y dyfodol?

Yma, dim ond dau bosibiliad sy'n cael eu rhoi yn anffodus. Mae yna lawer, lawer mwy ac mae'r rhain i'w hystyried a'u cymharu hefyd. Gobeithio y caiff hyn ei wneud yn rhywle arall. Gan wneud hynny i gyd, yna ceir y set orau o 32 o etholaethau. Dyma'r gorchwyl i ni, yn barod ar gyfer haf '23 a'r adroddiad i'r senedd.

Etholaethau Presennol (cyn arolwg 2023) ar gyfer Cymru

MAP A




Ar gyfer allwedd rhifau etholaethau gweler isod.

Mae'r system rhifo etholaethau yn nhrefn y wyddor yn ôl yr iaith Saesneg. Gan fod holl enwau'r etholaethau yn Saesneg, mae'r drefn honno yn ôl y wyddor i bob un.

Current Set of ~~Forty~~ Constituencies for Wales Key (4)

4 of 16

1. Aberavon 51450
2. Aberconwy 45426
3. Alyn and Deeside 65183
4. Arfon 43125
5. Blaenau Gwent 51495
6. Brecon and Radnorshire 55124
7. Bridgend 64245
8. Caerphilly 64925
9. Cardiff-Central 63017
10. Cardiff-North 69143
11. Cardiff-South and Penarth 81366
12. Cardiff-West
13. Carmarthen East and Dinefwr 58048
14. Carmarthen West and South Pembrokeshire 59924
15. Ceredigion 56634
16. Clwyd South 54747
17. Clwyd West 58024
18. Cynon Valley 51461
19. Delyn 55604
20. Dwyfor Meirionnydd 44882
21. Gower 62763
22. Islwyn 56841
23. Llanelli 62196
24. Merthyr Tydfil and Rhymney 57883
25. Monmouth 67334
26. Montgomeryshire 49961
27. Neath 57032
28. Newport East 60936
29. Newport West 68748
30. Ogmore 57934
31. Pontypridd 60923
32. Preseli Pembrokeshire 60025
33. Rhondda 50471
34. Swansea-East
35. Swansea-West 59419
36. Torfaen 62979
37. Vale of Clwyd 56307
38. Vale of Glamorgan 77204
39. Wrexham 52713
40. Ynys Môn



Ar gyfer allwedd rhifau etholaethau gweler isod

Mae'r system rhifo etholaethau yn nhrefn y wyddor yn ôl yr iaith Saesneg. Mae enwau'r etholaethau yn Gymraeg a Saesneg. Nid yw'r enwau Cymraeg yn nhrefn y wyddor. Nid ydynt mewn unrhyw drefn pa beth bynnag. Mae'r iaith Saesneg yn cael ei rhoi uwchlaw'r Gymraeg ac yn cael ei ffafrio mwy na'r Gymraeg – trefn Saesneg.

Key to the Revised Proposals Map - Thirty-two Constituencies. (6 of 16) (6)


1. Aberafan Porth-cawl 75 270
2. Alyn a Glannau Dyfrdwy 75 695 (6 of 16)
3. Bangor Aberconwy 70 468
4. Blaenau Gwent a Rhymni 71 079
5. Aberhonddu Maesyfed a Chwm-tawe 72 113
6. Pen-y-bont 76 464
7. Caerfyrddin
8. Caerffili 72 325
9. Dwyrain Caerdydd 72 463
10. Gogledd Caerdydd 71 143
11. De Caerdydd a Phenarth 72 269
12. Gornllewin Caerdydd 73 947
13. Ceredigion Preseli 74 063
14. Dwyrain Clwyd 76 395
15. Gogledd Clwyd 76 150
16. Dwyfor Meirionnydd 69 803
17. Gŵyr a Gornllewin Abertawe 75 214
18. Llanelli 69 895
19. Merthyr Tudful a Chynon Vchaf 74 805
20. De a Canol Sir Benfro 76 820
21. Sir Fynwy 72 681
22. Maldwyn a Glyndŵr 76 953
23. Castell-nedd a Dwyrain Abertawe 72 172
24. Dwyrain Casnewydd 76 159
25. Gornllewin Casnewydd ac Islwyn 76 367
26. Porthyridd 73 743
27. Rhondda 69 764
28. Canol a Gogledd Abertawe 71 378
29. Torfaen 70 591
30. Bro Morgannwg 70 426
31. Wrecsam 70 964
32. Ynys Môn 52 415

Suggested Proposals for the 2023 Review for Wales.

⑦

[7 of 16]

MAP C



Ar gyfer rhifau etholaethau, gweler isod.

Mae'r system rhifo etholaethau yn ddaearyddol ac yn annibynnol ar iaith.

Suggested Set of Thirty-two Constituencies for Wales' Key (8)

1. Ynys Môn 52415
2. Arfon Conwy Dwyfor 74692
3. Betws-yn-Rhos 75176
4. RhyL Ddinbych 70580
5. Dyfrdwy 72115
6. Wrecsam 72977
7. Rhosilannerchrugog Rhuthun/Glyndŵr 70887
8. Powys 76679
9. Aberystwyth 70192
10. Teifi 72131
11. Penfros 72898
12. Caerfyrddin Bae 71795
13. Llŵchwr 75586
14. Abertawe - Mwmbwls 76232
15. Abertawe - Tawe 74715
16. Nedd Lliw Tawe (-Uchaf) 70516
17. Afan Llynfi Fach 73574
18. Pen-y-bont 69863
19. Tonyrefail Rhws 70121
20. Barri Phenarth 70740
21. Caerdydd - Castell 71106
22. Caerdydd - Llandaf 73878
23. Caerdydd - Llanishen 73507
24. Casnewydd - Gaer Caerdydd - Llanrhymini 74015
25. Casnewydd - Maendy 76159
26. Wysg 72681
27. L(l)wyd 70591
28. Ebbw 73367
29. Sirhowy Rhymni 76349
30. Merthyr Aber 74538
31. Cynon Taf 71245
32. Rhondda Trelai 70480

Nid cael etholaeth mor agos â phosibl at gwota etholiadol y DU yw'r gofyniad. Y gofyniad a'r angen yw cael etholaeth o fewn yr amrediad etholiadol, sef rhwng 69724 a 77062. Nid ei gael mor agos â phosibl at 73393. Pan fydd y wardiau gorau ar gyfer etholaeth yn dod i mewn i'r amrediad etholiadol, p'un a oes mwy o wardiau'n cael eu hychwanegu, a pha rai sy'n dibynnu ar beth sydd orau ar gyfer yr etholaeth ac ystyriaeth i'r etholaethau eraill. Y ffactorau hyn yw'r prif rai wrth bennu ble mae ward yn mynd, pa etholaeth y mae'n ffurfio rhan ohoni. Enw'r etholaeth yw hynny sy'n disgrifio ac yn cynnwys yr holl bethau gorau o'r etholaeth. Gall fod yn enw(au) awdurdod/au lleol, nodwedd ddynol, nodwedd ffisegol ac yn y blaen, ac unrhyw gyfuniad ohonynt. Mewn rhyw ystyr, ceir dwy lefel - dwy olwg wahanol. Y macro a'r micro. Y macro yw'r cymunedau, sy'n cael eu ffurfio a sut cânt eu ffurfio - y strwythur. Y micro yw'r wardiau, ble mae wardiau yn mynd, ble yw'r lle gorau i'w rhoi.



**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru